Fe wnaeth y Cyngorydd Sir M.J. Dorrance ddatgan diddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel cyfarwyddwr MIND Aberhonddu a'r Cylch ac fel llywodraethwr Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy. Datganodd ddiddordeb personol sy'n rhagfarnus yn yr eitem ar y Cytundeb Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol.

Fe wnaeth y Cyngorydd Sir S. McNicholas ddatgan diddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel Ymddiriedolwr gyda Neuadd Les y Glowyr yn Ystradgynlais.

3.	<b>CYLLIDEB AR GYFER 2015-16, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2015-2018 A RHAGLEN GYFALAF 2015-2020</b>	<b>CC21 – 2015</b>
----	--	--------------------

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad ar y gyllideb. (Copi wedi'i ffeilio gyda chofnodion sydd wedi'u harwyddo). Mae gostyngiad o 4.4% yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â phwysau ar wasanaethau a buddsoddiadau yn golygu fod cynilion o £11.634m wedi cael eu dynodi i lunio cyllideb gytbwys. Y setliad oedd yr ail gyllideb waethaf yng Nghymru a gallai'r sefyllfa fod yn waeth petai'r Cyngor heb gael budd o 'lawr' a gynigiodd amddiffyniad o £2.2miliwn mewn nawdd. Mae'r llawr hwn yn ddewisol ac fe'i penderfynwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ond ni ellir ei sicrhau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at yr ymarferion ymgynghori cyhoeddus ar y gyllideb sydd wedi'u cynnal i siapio'r gyllideb a chynigion ar gyfer arbedion. Fe wnaeth gydnabod mai siomedig fu'n nifer a ddaeth i rai digwyddiadau er gwaetha'r ffaith iddynt gael eu hysbysebu'n dda. Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynigion i sicrhau fod effaith bosibl y cynigion ar rannau penodol o'r gymuned yn cael ei ddeall. Gofynnodd yr aelodau am gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb yn gynharach yn y dyfodol a'u mewnosod yn y broses graffu.

Fe wnaeth yr adroddiad nodi'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2015/16 hyd at 2019/20 gydag ymrwymiad cyfalaf sy'n gyfanswm o £145.946m a fyddai'n galluogi'r Cyngor i barhau i adnewyddu ei seilwaith craidd. Wedi'i gynnwys o fewn yr adroddiad hefyd oedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015-18 a gyflwynodd y fframwaith i fodlu cyllidebau yn y dyfodol.

Roedd y cynigion yn cynnwys cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor. Gofynnodd yr aelodau am y goblygiadau o osod Treth y Cyngor ar lefel sy'n is na'r cyfartaledd Cymreig oedd rhwng 4.4% a 4.5%. Fe wnaeth yr Aelod Portffolio gydnabod y gellid bod wedi gosod hwn ar ffigwr uwch i gefnogi gwasanaethau a diogelu'r llawr am y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriodd yr Aelodau at y gost o gyflwyno gwasanaethau mewn ardal wledig mor fawr nad oedd wedi cael ei adlewyrchu yn y setliad. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd gosod lefel Treth y Cyngor sy'n realistig. Dywedodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â chydweithwyr o awdurdodau gwledig eraill ynglŷn â'r fformwla ariannu.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd fod arbedion ar yswiriant i'r cynllun car prydles a gytunwyd yng nghyllideb y flwyddyn flaenorol wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau gadarnhau hyn ar gyfer y



Cynghorydd Sir G.D. Price. Atebodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd gwestiynau am barcio ceir a chadarnhaodd bod cynigion i gyflwyno taliadau ond nad oedd cynllun wedi'i lunio eto. Mynegodd nifer o Aelodau bryderon ar ran trigolion sydd heb gynllun parcio ar y stryd y tu allan i'w cartrefi. Rhoddodd yr Aelod Portffolio sicrwydd y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal gydag Aelodau lleol cyn cyflwyno'r cynigion. Dywedodd hefyd fod codi tâl ar staff i barcio ar eiddo'r cyngor yn parhau i gael ei ystyried ond nid oedd y cynigion hyn yn rhan o'r argymhellion gerbron y Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Sir E.M. Jones ddiddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel cyfarwyddwr Canolfan Ddydd Dwyrain Maesyfed a Chadeirydd Canolfan Adnoddau Hen Ysgol Dyffryn Maesyfed. Dywedodd y Swyddog Monitro fod eithriad cyffredinol yn cael ei gyflwyno gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorwyr Sir sy'n aelodau o Gyrrff Gwirfoddol o'r fath lle maent wedi cael eu hapwyntio gan gyrrff eraill yn hytrach na'r Cyngor Sir. Mewn ateb i gwestiwn y Cynghorydd Jones am drosglwyddo asedau adeiladau cymunedol, cadarnhawyd na fyddai trosglwyddiadau asedau gorfodol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau i roi esboniad ysgrifenedig i'r Cynghorydd Jones gydag esboniad ysgrifenedig am y Gofyn am Gyllid Cyfalaf.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau at y lwfans dwyieithrwydd o £50,000 yn cael ei dynnu'n ôl. Esboniwyd bod elfen o nawdd dwbl, yn yr ystyr bod nawdd yn cael ei roi fesul disgybl gyda'r lwfans dwyieithrwydd i ysgolion ar ben hynny. Byddai nawdd i ddisgyblion unigol yn parhau a barn y gwasanaeth Ysgolion oedd na fyddai tynnu'r lwfans oddi ar ysgolion yn cael effaith ar ddarpariaeth ddwyieithog.

Gofynnodd yr aelodau am y targed cynilion o £1.4 miliwn a osodwyd ar gyfer cludiant cyhoeddus ac a fyddai hwn yn effeithio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol a chludiant ôl-16 ai peidio. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd nad oes unrhyw newid yn y polisi cludiant ysgol ac nad oes unrhyw gynigion i godi tâl ar gyfer cludiant ôl-16. Fe wnaeth yr aelod portffolio gydnabod yr her o gwrdd â'r targed cynilion ar gyfer y gwasanaethau cludo teithwyr. Roedd ymgynghorwyr wedi cael eu cyflogi i adrodd yn ôl gyda chynigion, gyda disgwyl i'r adroddiad gael ei gyflwyno. Y cyfeiriad gwleidyddol a roddwyd gan yr Aelod Portffolio i'r ymgynghorwyr oedd ei bod hi'n bwysig i gymunedau gael mynediad at gludiant cyhoeddus.

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Eiddo ac Asedau addo i roi manylion i'r Cynghorydd V.E. Evans am gyfraddau meddiannu gweithdai. Rhoddodd sicrwydd fod y Cyngor o hyd yn ceisio cynyddu'r swm y mae'n ei dderbyn ar eiddo dros ben. Mewn ymateb i gwestiwn am werthu Parc Carafannau Wyeside, esboniodd yr Aelod Portffolio Adfywio a Chynllunio y byddai'r safle'n cael ei werthu neu ei osod fel parc carafannau i ddarparwr preifat a oedd yn deall y farchnad yn well gan gynyddu'r cyfleoedd adfywio ar gyfer Rhaeadr Gwy.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Amgylchedd a Chynladwyedd fod casgliadau pob 3 wythnos ar gyfer gwastraff dros ben yn cael ei archwilio. Roedd cyflwyno'r cynllun casgliadau o fin y ffordd wedi cynyddu cyfanswm y deunyddiau a ailgylchir a gostwng cyfanswm y gwastraff sydd dros ben. Atebodd gwestiynau hefyd am y gwasanaeth casglu gwastraff clinigol a ddarperir ar ran Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a chadarnhaodd y byddai'r casgliad gwastraff clinigol yn parhau fel ag y mae ar hyn o bryd. Dywedodd mai nod y gwasanaeth oedd bod yn fwy effeithlon er mwyn ei alluogi i gystadlu gyda chwmnïau preifat ar gasglu gwastraff masnachol.

Gofynnwyd cwestiwn am ba ystyriaeth ar roddwyd i'r perygl o bobl yn cysylltu â'r Cyngor i ofyn am help ariannol wrth dalu eu treth cyngor. Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol - Adnoddau fod y risg yn cael ei asesu ynghyd â chanlyniad newidiadau i'r system fudd-daliadau. Byddai'r effaith yn cael ei ffactoreiddio i mewn i gyfraddau casglu a oedd yn parhau'n uwch na 99%. Nododd hefyd fod cymorth ar gael i bensiynwyr.

Fe wnaeth y Cyngorydd Sir Bowker ddatgan diddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel cynrychiolydd a benodir gan y Cyngor ar gyfer Theatr Hafren ac fel llywodraethwr yn Ysgol Cedewain. Mewn ymateb i'w cwestiwn am y cynnig i dynnu nawdd yn ôl ar gyfer theatrau yn 2016/17, esboniodd yr Aelod Portffolio Comisiynu a Chaffael nad oedd toriad o 100% yn ddewis dichonadwy a'i fod yn trafod gyda'r theatrau ar sail toriad o 35%.

Atebodd yr Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant gwestiynau am y cynilion sydd eu hangen o fewn gofal cymdeithasol. O ran y gwasanaeth pryd ar glud ac ailfodelu gwasanaethau gofal seibiant, dywedodd bod mwyafrif y cynilion wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd gwaith yn parhau gyda grwpiau lleol a oedd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth pryd ar glud. Byddai Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i gyflwyno cymorth i'r bregus trwy fuddsoddi mewn modelau cyflwyno newydd gyda grwpiau cymunedol, ac yn achlysurol, trwy wasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir.

Fe wnaeth y Cyngorydd Sir Dorrance ddatgan diddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel cyfarwyddwr MIND Aberhonddu a'r Cylch ac fel llywodraethwr Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy. Dadleuodd yn erbyn cyflwyno taliadau ar gyfer darparu hyfforddiant yn erbyn trais yn y cartref. Gofynnodd hefyd am y Cyflog Byw yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Medi 2014. Cadarnhaodd y byddai'r Cyflog Byw yn y Datganiad Polisi Cyflogau y byddai gofyn i'r Cyngor ei gadarnhau ar 6 Mawrth. Byddai'r gost rhwng £368,000 a £418,000 ac yn effeithio ar 1,132 o swyddi.

Datganodd y Cyngorydd Sir McNicholas ddiddordeb personol heb fod yn rhagfarnus fel Ymddiriedolwr gyda Neuadd Les y Glowyr yn Ystradgynlais. Fe wnaeth gymell yr Aelod Portffolio i feddwl eto am y cynigion i ostwng nawdd ar gyfer y theatrau, yn enwedig Neuadd Les y Glowyr nad yw'n derbyn grant ond sydd â swydd i'w hariannu.

Mewn ateb i gwestiynau am gynilion dan eitem 47 o fewn Atodiad 3, esboniodd y Prif Weithredwr yr arbedion yn 2015/16 o ran ad-drefnu'r Unedau Cyfeirio Disgyblion. Cafwyd targed pellach o ran cynilion o £265,000 yn 2016/17 ac ni ellid rhoi sicrwydd mewn perthynas â darpariaeth ADY, sy'n destun arolwg. Mewn perthynas â'r targed cynilion gyda phrydau ysgol, esboniodd y Prif Weithredwr mai cost oedd hon y gellid darparu ar ei gyfer o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion ac na ellid ei gyflawni trwy leihau ansawdd y prydau. O ran adroddiad PWC ar ddarpariaeth ysgolion uwchradd, nododd fod rhaid i'r Cyngor brynu arbenigedd allanol ar brydiau.

Mewn ymateb i gwestiwn am y cynnig i gael gostyngiad o 2 yn nifer y swyddogion digartrefedd, esboniodd yr Aelod Portffolio Comisiynu a Chaffael fod y Gwasanaeth

Tai yn cael ei ailgynllunio ac y byddai digartrefedd yn gyfrifoldeb i'r holl swyddogion tai.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir Alexander ddiwygiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir, y dylid dileu eitem 11 yn y cynigion arbedion i gyflwyno taliadau ar gyfer darparu hyfforddiant ar gyfer trais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r gyllideb. Ar gyngor y Swyddog Adran 151, cytunodd y cynigiwr a'r eilydd i ddiwygio eu cynnig ar yr amod y gellid ariannu'r diffyg o £1,000 yn y gyllideb o'r gronfa wrth gefn. Wedi pleidleisio

**PENDERFYNWYD y dylid dileu eitem 11 yn y cynigion arbedion i gyflwyno taliadau ar gyfer darparu hyfforddiant ar gyfer trais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r gyllideb ac y dylid ariannu'r diffyg o £1,000 yn y gyllideb o'r gronfa wrth gefn.**

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Cyllid symud yr argymelliad y dylid diwygio'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2015/16 a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad 2 o'r adroddiad trwy ddileu eitem 11 yn y cynigion cynilo, ac fe'i heiliwyd fel yn briodol.

Gofynnodd mwy na 10 Aelod oedd yn bresennol am gofnodi'r bleidlais o ran argymhellion 1, 2 a 3 o fewn yr adroddiad.

Argymhelliad 1 1

M.C. Alexander	O Blaid
P.J. Ashton	Yn Erbyn
D. Bailey	O Blaid
G.R. Banks	O Blaid
G.C. Bowker	Yn Erbyn
R.G. Brown	O Blaid
J.H. Brunt	O Blaid
L.V. Corfield	O Blaid
K.W. Curry	Yn Erbyn
A.W. Davies	Yn Erbyn
C.P. Davies	Yn Erbyn
D.E. Davies	O Blaid
E.R. Davies	O Blaid
L.R.E. Davies	O Blaid
M.J.B. Davies	O Blaid
S.C. Davies	Yn Erbyn
S. Davies	O Blaid
M.J. Dorrance	Yn Erbyn
D.O. Evans	O Blaid
V.E. Evans	O Blaid
W.J. Evans	O Blaid
W.A. Fitzpatrick	Absennol
R.I. George	Absennol
M.R. Harris	O Blaid

P. Harris	Yn Erbyn
S.M. Hayes	O Blaid
A.Holloway	O Blaid
J.C. Holmes	Absennol
G.G. Hopkins	O Blaid
D.C. Jones	O Blaid
D.R. Jones	O Blaid
E.A. Jones	Absennol
Eldrydd M. Jones	Absennol
E.M. Jones	O Blaid
G.M. Jones	Yn Erbyn
J. Jones	O Blaid
M.J. Jones	O Blaid
W.T. Jones	O Blaid
F.H. Jump	Yn Erbyn
H. Lewis	O Blaid
P.E. Lewis	Yn Erbyn
M. Mackenzie	Absennol
D.J. Mayor	O Blaid
S. Mc McNicholas	Yn Erbyn
P.J. Medlicott	O Blaid
D.W. Meredith	Yn Erbyn
R.H. Mills	O Blaid
E.T. Morgan	O Blaid
G. Morgan	O Blaid
J.G. Morris	Yn Erbyn
W.J.T. Powell	O Blaid
W.D. Powell	Absennol
D.R. Price	O Blaid
G.D. Price	Yn Erbyn
P.C. Pritchard	O Blaid
G.W. Ratcliffe	O Blaid
K.M. Roberts-Jones	O Blaid
J.G. Shearer	O Blaid
K.S. Silk	Absennol
K.F. Tampin	O Blaid
A.G. Thomas	O Blaid
D.A. Thomas	Yn Erbyn
D.G. Thomas	O Blaid
R.G. Thomas	Yn Erbyn
W.B. Thomas	O Blaid
T.G. Turner	Absennol
T.J. Van Rees	O Blaid
G.P. Vaughan	O Blaid
G.I.S. Williams	Yn Erbyn
D.H. Williams	Yn Erbyn
J.M. Williams	O Blaid
S.L. Williams	Yn Erbyn

A.York	O Blaid
--------	---------

Cafodd y cynnig ei basio gan 44 pleidlais i 20 pleidlais.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad</b>
<b>4. Y dylid cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2015/16 a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad 2 i'r adroddiad.</b>	<b>Gofyniad statudol</b>

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Cyllid symud argymhelliad 2 yn yr adroddiad y dylid derbyn y Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2015/16 a ddangosir yn Atodiad 4 ac fe'i heiliwyd fel yn briodol.

M.C. Alexander	Ymatal
P.J. Ashton	Yn Erbyn
D. Bailey	O Blaid
G.R. Banks	O Blaid
G.C. Bowker	Yn Erbyn
R.G. Brown	O Blaid
J.H. Brunt	O Blaid
L.V. Corfield	O Blaid
K.W. Curry	Yn Erbyn
A.W. Davies	Yn Erbyn
C.P. Davies	Yn Erbyn
D.E. Davies	O Blaid
E.R. Davies	O Blaid
L.R.E. Davies	O Blaid
M.J.B. Davies	O Blaid
S.C. Davies	O Blaid
S. Davies	O Blaid
M.J. Dorrance	O Blaid
D.O. Evans	O Blaid
V.E. Evans	O Blaid
W.J. Evans	O Blaid
W.A. Fitzpatrick	Absennol
R.I. George	Absennol
M.R. Harris	O Blaid
P. Harris	Yn Erbyn
S.M. Hayes	O Blaid
A.Holloway	O Blaid
J.C. Holmes	Absennol
G.G. Hopkins	O Blaid
D.C. Jones	O Blaid
D.R. Jones	O Blaid
E.A. Jones	Absennol
Eldrydd M. Jones	Absennol

E.M. Jones	O Blaid
G.M. Jones	Yn Erbyn
J. Jones	O Blaid
M.J. Jones	O Blaid
W.T. Jones	O Blaid
F.H. Jump	Yn Erbyn
H. Lewis	O Blaid
P.E. Lewis	Yn Erbyn
M. Mackenzie	Absennol
D.J. Mayor	O Blaid
S. Mc McNicholas	O Blaid
P.J. Medlicott	O Blaid
D.W. Meredith	O Blaid
R.H. Mills	O Blaid
E.T. Morgan	O Blaid
G. Morgan	O Blaid
J.G. Morris	Yn Erbyn
W.J.T. Powell	O Blaid
W.D. Powell	Absennol
D.R. Price	O Blaid
G.D. Price	Yn Erbyn
P.C. Pritchard	O Blaid
G.W. Ratcliffe	O Blaid
K.M. Roberts-Jones	O Blaid
J.G. Shearer	O Blaid
K.S. Silk	Absennol
K.F. Tampin	O Blaid
A.G. Thomas	O Blaid
D.A. Thomas	O Blaid
D.G. Thomas	O Blaid
R.G. Thomas	Yn Erbyn
W.B. Thomas	O Blaid
T.G. Turner	Absennol
T.J. Van Rees	O Blaid
G.P. Vaughan	O Blaid
G.I.S. Williams	Yn Erbyn
D.H. Williams	O Blaid
J.M. Williams	O Blaid
S.L. Williams	O Blaid
A.York	O Blaid

Cafodd yr argymhelliad ei basio gan 50 pleidlais i 13 pleidlais gydag 1 yn ymatal rhag pleidleisio.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad</b>
<b>5. Y dylid derbyn y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2015/16 a ddangosir yn</b>	<b>Gofyniad statudol</b>

<b>Atodiad 4.</b>	
-------------------	--

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Cyllid symud argymhelliad 3 yn yr adroddiad y dylid cyflwyno'r cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gerbron y cyngor llawn ar y 6 Mawrth 2015 ac fe'i heiliwyd fel yn briodol.

M.C. Alexander	O Blaid
P.J. Ashton	Yn Erbyn
D. Bailey	O Blaid
G.R. Banks	O Blaid
G.C. Bowker	Yn Erbyn
R.G. Brown	O Blaid
J.H. Brunt	O Blaid
L.V. Corfield	O Blaid
K.W. Curry	Yn Erbyn
A.W. Davies	Yn Erbyn
C.P. Davies	Yn Erbyn
D.E. Davies	O Blaid
E.R. Davies	O Blaid
L.R.E. Davies	O Blaid
M.J.B. Davies	O Blaid
S.C. Davies	O Blaid
S. Davies	O Blaid
M.J. Dorrance	O Blaid
D.O. Evans	O Blaid
V.E. Evans	O Blaid
W.J. Evans	O Blaid
W.A. Fitzpatrick	Absennol
R.I. George	Absennol
M.R. Harris	O Blaid
P. Harris	Yn Erbyn
S.M. Hayes	O Blaid
A.Holloway	O Blaid
J.C. Holmes	Absennol
G.G. Hopkins	O Blaid
D.C. Jones	O Blaid
D.R. Jones	O Blaid
E.A. Jones	Absennol
Eldrydd M. Jones	Absennol
E.M. Jones	O Blaid
G.M. Jones	Yn Erbyn
J. Jones	O Blaid
M.J. Jones	O Blaid
W.T. Jones	O Blaid
F.H. Jump	Yn Erbyn
H. Lewis	O Blaid
P.E. Lewis	Yn Erbyn
M. Mackenzie	Absennol

D.J. Mayor	O Blaid
S. Mc McNicholas	O Blaid
P.J. Medicott	O Blaid
D.W. Meredith	O Blaid
R.H. Mills	O Blaid
E.T. Morgan	O Blaid
G. Morgan	O Blaid
J.G. Morris	Yn Erbyn
W.J.T. Powell	O Blaid
W.D. Powell	Absennol
D.R. Price	O Blaid
G.D. Price	Yn Erbyn
P.C. Pritchard	O Blaid
G.W. Ratcliffe	O Blaid
K.M. Roberts-Jones	O Blaid
J.G. Shearer	O Blaid
K.S. Silk	Absennol
K.F. Tampin	O Blaid
A.G. Thomas	O Blaid
D.A. Thomas	O Blaid
D.G. Thomas	O Blaid
R.G. Thomas	Yn Erbyn
W.B. Thomas	O Blaid
T.G. Turner	Absennol
T.J. Van Rees	O Blaid
G.P. Vaughan	O Blaid
G.I.S. Williams	Yn Erbyn
D.H. Williams	O Blaid
J.M. Williams	O Blaid
S.L. Williams	O Blaid
A.York	O Blaid

Cafodd yr argymhelliad ei basio gan 51 pleidlais i 13 pleidlais.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad</b>
<b>6. Y dylid cynnwys y cynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor yn yr adroddiad sy'n mynd gerbron y Cyngor ar 6 Mawrth.</b>	<b>Mae yna Ofyniad Statudol i osod Treth y Cyngor ond mae'r lefel yn fater i'w benderfynu yn lleol.</b>

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Cyllid symud argymhellion 4 i 9 o fewn adroddiad y Gyllideb a eiliwyd fel yn briodol.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
<b>4. Y dylid cytuno ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015 i 2018 fel y nodir yn atodiad 1 i'r adroddiad mewn egwyddor.</b>	<b>Cynorthwyo gyda chynllunio busnes a datblygu'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd</b>
<b>5. Cymeradwyo awdurdodi terfyn</b>	<b>Gofyniad Statudol</b>



benthycia ar gyfer 2015/16 fel sy'n ofynnol dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 fel y nodir ym mharagraff 7.9 yr adroddiad.	
6. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2015/16 fel y nodir yn adran 8 yr adroddiad.	Gofyniad Statudol
7. Defnyddio Dewis 1 fel y Model Rheoleiddio i gyfrifo'r MRP o ran Benthycia a Gefnogir.	Gofyniad Statudol
8. Defnyddio Dewis 3 fel y Dull Blwydd-dal Asedau Bywyd i gyfrifo'r MRP o ran Benthycia Darbodus.	Gofyniad Statudol
9. Manteisio ar y cyfarwyddyd sy'n caniatáu gohirio'r MRP ar gyfer asedau sy'n cael eu hadeiladu.	Cyfateb cost y MRP i'r defnydd o ased gan wasanaeth.

4.	<b>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – CYTUNDEB CYFLWYNO DIWYGIEDIG</b>	<b>CC22 – 2015</b>
----	--	--------------------

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Dorrance ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnus yn yr eitem hon a gadael y cyfarfod.

Cafodd Mark Newey, Pennaeth Cynlluniau Datblygu yn Llywodraeth Cymru a Neil Hemmington (Prif Gynlluniwr) eu cyflwyno gan yr Aelod Portffolio Adfywio a Chynllunio. Esboniodd Mr Newby mai Llywodraeth Cymru oedd yr ymgynghorai statudol ar y Cynllun Datblygu Lleol ac mai ei rôl oedd cymharu cynnwys y cynllun gyda pholisïau cenedlaethol. Yn ystod y cam adnau ym mis Medi 2014, mynegodd Llywodraeth Cymru bryderon am y sylfaen dystiolaeth o ran twf economaidd a darparu tai yn benodol a allai gael effaith ar gadarnrwydd y cynllun wrth ei archwilio. Cyngor Llywodraeth Cymru oedd oedi gyda'r cynllun er mwyn casglu tystiolaeth fel y byddai'n cael ei gefnogi'n llwyr gan dystiolaeth wedi iddo gael ei gyflwyno i'r archwiliwr annibynnol. Esboniodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio a Threftadaeth Adeiledig (Gogledd) pa gamau gweithredu oedd yn cael eu cymryd i drafod pryderon Llywodraeth Cymru ac atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth. Er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r CDLI ac ailadrodd y cam ymgynghori ar y CDLI Adnau, byddai angen diwygio'r amserlen yn y Cytundeb Cyflwyno CDLI.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio a Threftadaeth Adeiledig (Gogledd) y byddai angen rhoi gwybod i unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau eisoes fod angen iddynt ailgyflwyno eu sylwadau.

Esboniodd Mr Hemmington fod y bwlch rhwng y cyfnod pan fyddai'r CDU yn dod i ben a mabwysiadu'r CDLI wedi'i effeithio ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor felly ddilyn y Cytundeb Cyflwyno gan gyflwyno'r cynllun cyn gynted ag sy'n bosibl. Dywedodd fod y perygl o oedi bychan ar yr adeg hon yn well na chyflwyno cynllun ansicr i'w archwilio. Fe wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru gynghori'r Cyngor i edrych ar awdurdodau cyfagos gyda CDLIau sydd wedi'u mabwysiadu am enghreifftiau o

arfer dda. Gellid lleihau'r peryglon trwy gael tystiolaeth gadarn, er enghraifft, ar lle mae'r angen am dai o fewn y sir a dyma lle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion yn y tymor byr. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cafwyd cydnabyddiaeth fod y Cyngor yn wynebu anawsterau o ran ynni adnewyddadwy, yn enwedig datblygiadau solar. Roedd hwn yn faes lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo fod y cynllun yn ddiffygiol. Fodd bynnag, byddai llunio polisi Ynni Adnewyddwy cadarn gyda sylfaen gref o ran tystiolaeth yn lliniaru ychydig ar y sefyllfa hon. Heb bolisi lleol ar waith, byddai'r Cyngor yn dibynnu ar bolisiau cenedlaethol.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm dros y Penderfyniad:</b>
Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflwyno CDLI diwygiedig (Atodiad 1 i'r adroddiad wedi'i ffeilio gyda chofnodion sydd wedi'u harwyddo).	Fel sy'n ofynnol gan Reoliad 9, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005  Galluogi cyflwyno Cytundeb Cyflwyno diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.

5.	<b>CWESTIWN I'R AELOD PORTFFOLIO AMGYLCHEDD A CHYNALADWYEDD ODDI WRTH Y CYNGHORYDD SIR STEPHEN HAYES</b>	CC23 – 2015
----	--	-------------

Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi cael gwybod yn ddiweddar am newidiadau i gasgliadau gwastraff clinigol, dim ond deng diwrnod cyn eu rhoi ar waith. Mae'r newidiadau yn ymwneud â'r diffiniad o 'wasttraff clinigol', a bydd nifer o eitemau a oedd yn cael eu cynnwys yn flaenorol yn y casgliadau sachau melyn yn cael eu heithrio erbyn hyn, gan ostwng nifer y trigolion sy'n gymwys am y gwasanaeth hwn yn sylweddol.

Yn benodol, ni fydd bagiau colostomi sydd wedi'u defnyddio yn cael eu hystyried erbyn hyn fel gwastraff clinigol, ac mae defnyddwyr gwasanaeth wedi cael gwybod y dylent roi'r rhain gyda'u gwastraff dros ben o'r cartref, a gesglir pob pythefnos ar hyn o bryd ond a fydd o bosibl yn cael eu casglu pob tair wythnos yn fuan.

Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn hynod o bryderus, ac mewn rhai achosion yn teimlo'n flin iawn am y newid hwn. Mae gan ddefnyddwyr casgliadau gwastraff clinigol anghenion iechyd tymor hir ac yn aml maent yn sensitif am eu hangen i ddefnyddio'r gwasanaeth penodol hwn.

Mae defnyddwyr y gwasanaeth wedi cael gwybod y bydd materion glanweithdra yn cael eu trin trwy ddefnyddio biniau olwynion. Fodd bynnag, cyflwynwyd sachau porffor i lawer ohonynt ar gyfer casgliadau gwastraff o'r cartref oherwydd bod eu hamgylchiadau iechyd ehangach, a/neu natur eu heiddo (e.e. nifer y grisiau i gyrraedd y ffordd) yn gwneud y defnydd o fin

olwynion yn anymarferol. Mae'r preswylwyr hyn yn wynebu'r sefyllfa o orfod storio bagiau colostomi sydd wedi'u defnyddio yn eu cartrefi fel gwastraff o'r cartref am hyd at dair wythnos.

Rwy'n gwerthfawrogi fod yr awdurdod yn cyflawni casgliadau gwastraff clinigol ar ran Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ond rwy'n bryderus iawn fod yr awdurdod hwn wedi derbyn yr ail-ddiffiniad o wastraff clinigol yn rhy gyflym er mwyn gostwng costau a thaliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwn.

A yw'r aelod portffolio yn fodlon fod yr holl bryderon glanweithdra wedi cael eu trafod os bydd bagiau colostomi yn cael eu trin fel gwastraff cyffredinol, a bod y sialensiau penodol sy'n wynebu'r sawl sy'n colli'r gwasanaeth hwn, wrth ddilyn gweithdrefnau newydd, wedi cael eu hasesu a'u hystyried ar sail unigol?

9. *Noder mai cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw'r gwasanaeth hwn ac mai y nhw ddylai bod wedi cynnal hyn cryn amser yn ôl. Y nhw sy'n gyfrifol am benderfynu pwy sy'n derbyn y gwasanaeth hwn wrth symud ymlaen. Dylid bod yn ymwybodol ein bod wedi cyflwyno'r gwasanaeth hwn am nifer o flynyddoedd ar gais y Bwrdd Iechyd heb unrhyw dâl ac ni all barhau yn syml iawn.*
10. *Rwyf wedi cael fy nghynghori mai'r gost o weithredu'r gwasanaeth hwn yw tua £150,000 y flwyddyn. Rwy'n amau fod y gwir gost lawer iawn yn uwch gan nad yw hyn yn ystyried costau gweinyddu, goruchwyllo, corfforaethol ac ati.*
11. *Bydd y gost lawer iawn is i'r awdurdod wrth symud ymlaen. Yn amlwg, fe fydd ychydig o wastraff yn mynd i'r llif gwastraff dros ben ond bydd y maint a'r pwysau yn gyfyngedig. Byddwn yn talu cyfraddau gwaredu mewn safleoedd tirlenwi ar gyfer y deunydd hwn ac nid y costau trin gwastraff clinigol mewn safle yn Wrecsam. Mae'r ddau gerbyd blaenorol oedd yn benodol i'r gwasanaeth hwn wedi cael eu dadgomisiynu a bydd y staff yn cael eu neilltuo i ddyletswyddau eraill.*
12. *O ran amcan bras iawn, roeddem yn cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn flaenorol i tua 350 o drigolion. O'r 01/02/15, mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Maent wedi adolygu ein cronfa ddata cwsmeriaid a'r ffrydiau gwastraff unigol. Y bwriad yw cyflwyno'r gwasanaeth i tua 65 o drigolion.*
13. *Mae pryder i'w gael o hyd pan fydd newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud ac rwy'n cytuno ein bod yn delio gyda rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Fodd bynnag, mae hyn yn newid pwysig ac angenrheidiol. Nid yw o anghenraid yn ymwneud ag arbed arian oherwydd fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ein cynghori fod y gwasanaeth yn torri canllawiau gwastraff clinigol.*
14. *Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ar gasgliadau pob 3 wythnos a byddai ychydig yn gynnar ar yr adeg hon i ddod i gasgliadau ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae hyn wedi'n nodi ein strategaeth gyllidebol fel arbediad effeithiolrwydd posibl. Fel gydag unrhyw newid i wasanaeth, bydd angen ystyried mesurau lliniaru a gallai hynny gynnwys gwasanaethau ychwanegol i gynhyrchwyr gwastraff hylendid nad yw'n heintus.*

*15. Nid yw'n bosibl cadarnhau fod yr "holl bryderon glanweithdra posibl" wedi cael eu trafod gan fod hyn yn fater i bob preswlydd unigol. Fodd bynnag, mae'r mesurau a gynigir yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd diweddaraf ac yn cyd-fynd ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru.*

*16. Os gallwch gynnig manylion eich etholwyr pryderus, byddaf yn sicrhau fod y tîm gwastraff yn cysylltu â hwy yn bersonol i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i'r gwasanaeth newydd.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Hayes o ran a fyddai'r Aelod Portffolio yn fodlon cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac awdurdodau lleol eraill sydd eisoes wedi mynd trwy'r broses hon yn llwyddiannus i weld pa gamau y gallai'r Cyngor eu cymryd i sicrhau fod pobl yn dioddef y niwed lleiaf, esboniodd y Cynghorydd Powel nad oedd y Cyngor eto wedi manteisio ar y cynnig gan CLILC ac Ystadau Iechyd Cymru am gymorth ychwanegol yn 2010 gan fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd eisoes yn cydweithio'n agos. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd addysgu Powys ym mis Ebrill 2014 gan roi digon o rybudd am y trosglwyddo. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio y byddai swyddogion yn cysylltu â thriogion pryderus.

**L.R.E. DAVIES  
CADEIRYDD**